Rhif: **WG23293**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Adolygiad o'r Broses o Lunio Cynlluniau Datblygu Lleol

Dyddiad cyhoeddi: **1 Hydref 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **2 Ionawr 2015**

## Trosolwg

Rydym yn gwneud gwelliannau i'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol ac yn ymgynghori ar y diwygiadau rydym wedi'u gwneud i ddogfennau cyfarwyddyd presennol y Cynllun Datblygu Lleol a'r is-ddeddfwriaeth sef.

- Polisi Cynllunio Cymru, 2014 (Pennod 2: Cynlluniau Datblygu)
- Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru, 2005
- Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, 2006
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

Drwy adeiladu ar arferion da, profiadau a gwersi a ddysgwyd er mwyn sicrhau proses fwy effeithiol ac effeithlon, rydym yn cynnig rhoi ar waith holl ganlyniadau pwysig y ddogfen Mireinio'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol: Adroddiad (2013).

Mae'r ymgynghoriad hwn ar wahân i'r Bil Cynllunio (Cymru) parhaus ac nid yw'n ymwneud â materion deddfwriaethol sylfaenol.

## Sut i ymateb

Mae'r papur ymgynghori yn cynnwys cwestiynau penodol a byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu eich barn.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 2 Ionawr 2015. Gallwch ymateb gan ddefnyddio'r ffyrdd canlynol:

E-bost:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sef Atodiad 3 a'i hanfon i: planconsultations-d@cymru.gsi.gov.uk

(Cofiwch nodi Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 23293 ar Adolygu'r Broses o Lunio CDLlau yn llinell pwnc y neges.)

Yn y post:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sef Atodiad 3 a'i hanfon at:

Ymgynghoriad ar Adolygu'r Broses o Lunio CDLlau
Y Gangen Cynlluniau
Yr Is-adran Cynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ.

## Rhagor o wyobdaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a'r atodiadau ar gael ar ein gwefan: www.wales.gov.uk/consultations/planning/?skip=1&lang=cy

Mae'r Atodiadau canlynol i'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys y cyfarwyddyd diwygiedig a'r is-ddeddfwriaeth:

- Atodiad 1.1 – Polisi Cynllunio Cymru, 2014 (Pennod 2: Cynlluniau Datblygu); a Chynlluniau Datblygu Lleol Cymru (– wedi'u cyfuno a'u hadolygu)
- Atodiad 1.2 – Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (– wedi'i ddiwygio)
- Atodiad 2 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (– bwriad yr adolygiadau arfaethedig)

Gellir dod o hyd i ragor o ddogfennau cysylltiedig yma:

- Mireinio'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol: Adroddiad (2013) www.wales.gov.uk/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/ldp-process-refinement-report/?skip=1&lang=cy

Cyfarwyddyd cyfredol ac is-ddeddfwriaeth:

- Polisi Cynllunio Cymru, 2014 (Pennod 2: Cynlluniau Datblygu) www.wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy
- Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru, 2005
- Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, 2006 www.wales.gov.uk/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/?skip=1&lang=cy
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 www.legislation.gov.uk/search?title=&year=2005&number=2839&type=wsi

## Manylion cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, dyma sut i gysylltu:

ebost: planconsultations-d@cymru.gsi.gov.uk
ffôn: Carole Doyle 029 2082 6956,
Elaine Ancrum 029 2082 3710,
neu Heledd Cressey on 0300 0625426.

© Hawlfraint y Goron 2014

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio’r farn a’r wybodaeth a roddwch inni

Sut y byddwn yn defnyddio’r farn a’r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae’r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae’n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’rgyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

WG23293

# Adolygiad o'r Broses o Lunio Cynlluniau Datblygu Lleol – Dogfen Ymgynghori[1]

## Cynnwys

**Adran 1 – Cyflwyniad a Throsolwg**

**Adran 2 – Newidiadau Arfaethedig**

**Adran 3 – Cwestiynau'n ymwneud â'r Ymgynghoriad**

**Atodiadau:**

**Atodiad 1 – Dogfennau cyfarwyddyd ar Gynlluniau Datblygu Lleol:**

- **1.1 – Polisi Cynllunio Cymru, 2014 (Pennod 2: Cynlluniau Datblygu); a Chynlluniau Datblygu Lleol Cymru *(- wedi'u cyfuno a'u hadolygu)***

- **1.2 – Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol *(- wedi'i ddiwygio)***

**Atodiad 2 - Bwriad y diwygiadau arfaethedig i: Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (2005 Rhif 2839 (C.203)).**

**Atodiad 3 – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

**Atodiad 4 – Rhestr y Cwmnïau / Cyrff sydd wedi'u hysbysu o'r Ymgynghoriad**

[1] Mae'r ddogfen ymgynghori hon a'r atodiadau ar gael ar ein gwefan: http://wales.gov.uk/consultations/planning/?lang=cy

## Adran 1 – Cyflwyniad a Throsolwg

### - Am beth mae'r ymgynghoriad hwn?

1.1 Mae Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) cyfredol yn rhoi syniad o ba fath o ddatblygiadau gaiff ac na chaiff eu caniatáu dros gyfnod y cynllun. Rydym yn gwneud gwelliannau i'r broses o lunio CDLl ac yn ymgynghori ar y diwygiadau i'n dogfennau cyfarwyddyd CDLl a'r is-ddeddfwriaeth (Atodiadau 1 a 2).

### - Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

1.2 Mae ein dogfennau cyfarwyddyd ar Gynlluniau Datblygu Lleol ar gael ar ein gwefan[2][3]:

- Polisi Cynllunio Cymru, 2014 (Pennod 2: Cynlluniau Datblygu)
- Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru, 2005
- Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, 2006

1.3 Mae'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol presennol ar gael ar wefan legislation.gov.uk[4].

### - Pam ydym ni'n cynnig gwneud y newidiadau?

1.4 Mae'r gwaith o fireinio'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol eisoes wedi elwa ar y profiadau y mae sawl awdurdod cynllunio lleol ac eraill wedi'u cael wrth baratoi nifer sylweddol o Gynlluniau Datblygu Lleol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn yr Adroddiad Mireinio (2013), rhoddir crynodeb o'r gwaith caled sydd wedi cael ei wneud yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r prif ganlyniadau a nodwyd (adran 6 yr Adroddiad).

1.5 Drwy adeiladu ar arferion da, profiadau a gwersi a ddysgwyd er mwyn sicrhau proses fwy effeithiol ac effeithlon, rydym yn cynnig rhoi ar waith holl ganlyniadau pwysig y ddogfen Mireinio'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol: Adroddiad (2013).

1.6 Mae'r ymgynghoriad hwn ar wahân i'r Bil Cynllunio (Cymru) ac nid yw'n ymwneud â materion deddfwriaethol sylfaenol.

## Adran 2 – Newidiadau Arfaethedig

### - Beth yw'r prif newidiadau rydym yn gynnig?

---

[2] http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy; http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/?skip=1&lang=cy

[3] Yn y man, byddwn yn diwygio'r canllaw cyhoeddus – *Cynllunio'ch Cymuned: Llyfryn cyflwyno Cynlluniau Datblygu Lleol, 2006* i adlewyrchu'r newidiadau y byddwn yn eu gwneud.

[4] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol) http://www.legislation.gov.uk/search?title=&year=2005&number=2839&type=wsi

2.1 Rydym yn cynnig rhoi ar waith y **prif ganlyniadau** a nodwyd yn Adroddiad 2013 (paragraffau 6.2 a 6.3) trwy wneud diwygiadau i'r is-ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd cenedlaethol. Dyma'r prif newidiadau a gynigir:

**a). Gwella'r trafodaethau rhagarweiniol cyn cyflwyno cais cynllunio**, gan ddefnyddio dull mwy integredig o ymgorffori'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn llwyr wrth baratoi CDLl, rhoi mwy o wybodaeth yn y Strategaeth Amgen a'i gwneud hi'n ofynnol bod safleoedd yn cael eu cyflwyno a'u trafod yn ystod camau cychwynnol y broses fel y gellir cael gwared ar y cam 'Safle Amgen' (Rheoliadau 20 a 21) sy'n feichus a dryslyd.

**b). Lleihau nifer y camau adolygu sy'n angenrheidiol**, drwy gyflwyno gweithdrefnau byrrach a chymesur er mwyn gallu gwneud diwygiadau rhannol i'r CDLl lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon pwysig i deilyngu'r weithdrefn lawn, yn enwedig lle mae'r strategaeth yn parhau i fod yn gadarn.

**c).** Gwneud y **profion cadernid** yn gliriach ac yn symlach.

**d).** Egluro'r gofynion o ran **sylfaen dystiolaeth gadarn, y modd y mae'r cynlluniau'n cael eu cynnal; monitro ac adolygu.**

2.2 Mae'r canlynol ymhlith y newidiadau eraill sy'n effeithio'n benodol ar Reoliadau'r CDLl:

**e). Adnoddau:** dylid ystyried yr adnoddau sydd ar gael neu sy'n debygol o fod ar gael i gynnal y polisïau a'r cynigion a ddisgrifir yn y CDLl (yn Rheoliad 13). (Mae hyn yn hollbwysig gan fod angen cynnal strategaethau CDLl yn ystod bywyd y cynllun).

**f). Dyddiad gorffen:** gwneud hi'n ofynnol bod is-deitl CDLl yn nodi 'dyddiad gorffen cyfnod y CDLl') (h.y. diwedd y cyfnod y mae'r CDLl yn paratoi ar ei gyfer) yn Rheoliad 11(1)(b).

**g). Hysbysiad:** cael gwared ar y gofyniad i "roi hysbyseb am y cynllun yn y wasg leol"; golyga "drwy gyhoeddusrwydd ar o leiaf un achlysur mewn papur newydd lleol yn ardal gyfan y CDLl". (e.e. yn Rheoliad 22(5)(b); Rheoliadau 23(1)(c); 24(2)(b); 25(2)(c); 26(b)). Ni fydd hyn yn lleihau lefel y cyhoeddusrwydd a roddir i'r CDLl gan y bydd y Cytundeb Cyflawni yn mynd i'r afael â hyn drwy'r Cynllun Cynnwys Cymunedol.

**h). Cynilion / darpariaethau pontio**: sicrhau nad yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau yn peri oedi wrth baratoi cynllun datblygu nac yn rhoi unrhyw un dan anfantais.

2.3 Mae newidiadau arfaethedig eraill y cynigiwyd eu gwneud i ddogfennau CDLl yn cynnwys:

**i). Pecyn cyfarwyddyd wedi'i ddiwygio a chryno** sy'n rhoi cyfarwyddiadau clir i lunwyr cynlluniau a'r rheini sy'n rhan o'r broses (nid oes angen llawer o'r cyfarwyddiadau sylfaenol ar y broses mwyach

gan fod y system CDLl wedi bod mewn grym ers y rhan fwyaf o'r ddegawd diwethaf). Mae'n cynnwys:

- Rhoi polisïau pwysig sydd wedi'u diwygio ar y broses CDLl mewn un lle ym Mholisi Cynllunio Cymru (Pennod 2) yn hytrach na'i rannu rhwng y Polisi Cynllunio a CDLl Cymru, a drwy hynny, cael gwared ar GDL Cymru; y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol gan gynnwys yr holl gyfarwyddiadau angenrheidiol.
- Cael gwared ar 'y prif themâu ar gyfer y system CDLl' ym mhennod 2 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Gwledig Lleol.

**j). Ymgyngoreion:** rhestri o ymgyngoreion statudol ac eraill.

**- Pa ganlyniadau ydym ni'n eu rhagweld?**

2.5 Ein nod yw sicrhau bod y broses CDLl yn ei gwneud hi'n haws i baratoi a chynnal cynlluniau. Bydd y broses yn fwy effeithiol ac effeithlon a bydd rheoliadau CDLl diwygiedig ar gael a dogfennau cyfarwyddwyd diwygiedig a symlach. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan lunwyr cynlluniau a'r rheini sy'n cymryd rhan yn y broses, gyfarwyddiadau clir, gan gofio nad oes bellach angen llawer o'r cyfarwyddiadau sylfaenol i'r system CDLl gan fod y system wedi bod mewn grym ers y rhan fwyaf o'r ddegawd diwethaf,

2.6 Er mwyn i ganlyniad bwriedig y cynllun fod yn llai beichus a chyflym, bydd angen is-ddeddfwriaeth i gael gwared ar y cam beichus 'safleoedd amgen' ac i wneud y weithdrefn yn fwy llyfn pan yn gwneud diwygiadau rhannol i GDLl sydd wedi'i fabwysiadu.

## Adran 3 – Cwestiynau'r Ymgynghoriad

3.1 Mae cwestiynau ynghylch yr ymgynghoriad isod. Os hoffech chi ymateb, defnyddiwch y **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad sydd yn Atodiad 3.**

3.2 Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad ar wahân. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb, ticiwch y bocs perthnasol ar y ffurflen ymateb.

3.3 Wrth ystyried y cwestiynau canlynol, hoffem i chi ystyried a ydych chi'n cytuno ag **egwyddor** y newidiadau arfaethedig yn ogystal â **manylion** y cyfarwyddiadau diwygiedig a'r Rheoliadau.

**- Cwestiynau**

| | |
|---|---|
| **C1** | **Trafodaethau rhagarweiniol / safleoedd amgen**<br>Gyda'r cynnig i drafod y safleoedd yn well ar y dechrau a Strategaeth a Ffefrir mwy diffiniedig a llawn gwybodaeth, ydych chi'n cytuno na fyddai unrhyw un dan anfantais pe byddem ni'n cael gwared ar y cam 'safleoedd amgen' (Rheoliadau 20 a 21)? |
| **C2** | **Adroddiad adolygu**<br>Ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi a |

| | |
|---|---|
| | chyhoeddi Adroddiad Adolygu i gyfiawnhau a yw diwygiad llawn neu rannol yn briodol, ac a ddylai'r cam hwn fod yn rhan o'r pecyn dogfennau angenrheidiol yn ystod y cam cyn-adneuo, adneuo a chyflwyno? |
| **C3** | **<u>Ffordd Gyflym o Ddiwygio'r Gweithdrefnau</u>**<br>Os yw'r awdurdod yn cynnig gwneud diwygiadau rhannol i'r CDLl sydd wedi'i fabwysiadu ac mae strategaeth y cynllun yn parhau i fod yn gyflawn, ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno proses adolygu gyflym (mae'n gynt, yn fyrrach ac yn fwy cymesur)? |
| **C4** | **<u>Profion cadernid</u>**<br>Ydych chi'n cytuno â'r pecyn arfaethedig o brofion cadernid? |
| **C5** | **<u>Dull Integredig</u>**<br>a. Ydych chi'n cytuno y byddai defnyddio dull integredig i werthuso cynaliadwyedd (gan gynnwys gwerthuso amgylchedd strategol) yn llawn i'r gwaith o baratoi CDLl yn creu arbedion ac yn lleihau cymhlethdod?<br><br>b. Ydych chi'n cytuno na fyddai'r integreiddiad hwn yn gwrthdaro ag unrhyw broses statudol? |
| **C6** | **<u>Adnoddau</u>**<br>Yn Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol, ydych chi'n cytuno ag ychwanegu 'adnoddau' fel mater y dylid rhoi sylw iddo yn Rheoliad 13, gan gofio bod yn rhaid i strategaethau'r CDLl gael eu cyflawni o fewn cyfnod y cynllun? |
| **C7** | **<u>Dyddiad Gorffen</u>**<br>Yn Rheoliadau'r CDLl, ydych chi'n cytuno y dylid ychwanegu dyddiad gorffen i'r cyfnod CDLl (h.y. diwedd y cyfnod y mae'r CDLl yn cynllunio ar ei gyfer) i'r is-deitl CDLl yn Rheoliad 11(1)(b)? |
| **C8** | **<u>Hysybsiad yn y wasg leol</u>**<br>Yn Rheoliadau CDLl, ydych chi'n cytuno â chael gwared ar y gofyniad i roi hysbysiad yn y wasg leol (e.e. yn Rheoliad 22(5)(b), Rheoliad 23(1)(c); 24(2)(b); 25(2)(c) a 26(b))? |
| **C9** | **<u>Ymgyngoreion</u>**<br>Ydych chi'n cytuno â'r rhestr ddiwygiedig o ymgyngoreion statudol? |
| **C10** | **<u>Pecyn cyfarwyddiadau</u>**<br>Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylid cael pecyn o gyfarwyddiadau sy'n cynnwys dwy ddogfen gryno ac sy'n eithrio'r angen am CDLl Cymru? (Cofiwch, bydd y cyfarwyddyd cyhoeddus, Cynllunio'ch Cymuned: Llyfryn cyflwyno Cynlluniau Lleol (CauDLl) yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau y cytunir arnynt). |
| **C11** | **<u>Camgymeriadau</u>**<br>Oes yna unrhyw gamgymeriadau ffeithiol yn y dogfennau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol? |
| **C12** | **<u>Unrhyw sylwadau eraill</u>**<br>Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw broblemau penodol nad ydym wedi'u nodi, defnyddiwch y gofod hwn i wneud sylwadau amdanyn nhw. |

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Enw:

Cwmni (os yw'n gymwys):

e-bost / rhif ffôn:

Cyfeiriad:

Yn fwy na thebyg, bydd yr ymatebion a gawn i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, eu rhoi ar y we neu eu rhoi mewn adroddiad.  Os hoffech chi petai'ch ymateb yn barhau yn ddi-enw, ticiwch yma: ☐